# Crynodeb o waith Blwyddyn 1 a 2 Tymor y Gwanwyn 2024

## 'Ein cynefin'

**Iechyd a Lles** - Trafod hawliau plant yn fisol. Dilyn rheolau'r dosbarth ac ysgol. Bwyta'n iach. Rheoli teimladau. Eistedd a chanolbwyntio am gyfnodau - Cylchoedd Croeso. Mynychu gwasanaethau boreol. Seren yr wythnos, Cymro'r Wythnos a dathlu llwyddiannau. Magu annibynniaeth wrth weithio a chymryd cyfrifoldeb gwisg ymarfer corff a'r goedwig. Aros eu tro. Gweithio fel tím. Gofalu am eu hamgylchedd. Adnabod amrywiaeth ddiwylliannol (Blwyddyn Newydd Tsieineaidd). Mwynhau cyfleoedd a phrofiadau tu fewn a thu allan. Ystyried germau a phwysigrwydd hylendid personol wrth fynd i'r tŷ bach a'r angen i olchi eu dwylo ac arbed tostrwydd. Brwsio dannedd.

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**
Dysgu/llafar ganu dyddiau'r wythnos/misoedd y flwyddyn a'r tymhorau. Cwblhau gweithgareddau gwahaniaethol Tric a Chlic a Drillio Disglair. Defnyddio strategaethau Pie Corbett â storïau addas. Dysgu caneuon Caru Canu a Cyw. Gweithgareddau amlsynhwyraidd a heriau. Dathlu'r Flwyddyn Newydd a dysgu traddodiadau Cymreig y Flwyddyn Newydd - Y Fari Lwyd, hel calennig, hela'r dryw a chreu perllan. Dathlu Santes Dwynwen, hanes Dewi Sant a'r Pasg. Astudio storiau gan ddilyn arddull Pie Corbett. Dathlu Cymro'r wythnos. Mwynhau a datblygu sgiliau darllen - Tric a Chlic, Coeden Rhydychen a Phrosiect X.

**Mathemateg a Rhifedd** - Gweithgareddau rhif/Rhifau Rhagorol. Cyfri, darllen, trefnu ac ysgrifennu rhifau i 10/20/100 ac ymhellach. Deall un yn fwy ac un yn llai. Dyblu a haneru. Cyfarwyddo â sgiliau adio a thynnu. Defnyddio llinellau rhif, darnau Numicon, sgwariau cant a rhaglenni rhyngweithiol. Cynnal sesiynau Rhifau Rhagorol - CLIC yn ddyddiol ac ymgyfarwyddo â'r cymeriadau Pim a Sgwiglen. Dysgu bondiau rhif 10 ar gof. Trafod data a mesurau - dysgu dweud yr amser wrth ddarllen cloc analog o'r gloch/hanner awr wedi. Deall darnau arian a dysgu sut i fesur gydag unedau ansafonol/safonol.

**Gwyddoniaeth a Thechnoleg** - Defnyddio offer TGCh yn briodol a diogel. Magu hyder wrth ymarfer mewngofnodi i HWB a defnyddio Jit yn annibynnol neu gyda chymorth oedolyn. Achub gwaith i'w ffolderi. Ystyried eu hamgylchfyd e.e. edrych ar adar - Wythnos yr RSPB. Defnyddio sgiliau coginio e.e bisgedi Santes Dwynwen/cebabs ffrwyth ac ymdoddi siocled - solid i hylif. Defnyddio'u sgiliau TGCh i gadw a llwytho delweddau. Ymgyfarwyddo â rhaglenni ac Apps addas e.e. Top Marks, Wordwall, Tric a Chlic, Visual Poetry, CYW, Caru Canu a.y.y.b. Cynnal ymchwiliadau/arbrofion. Dysgu am ddyfeisiadau arwyddocaol.

**Celfyddydau Mynegiannol** - Creu perllan yn y goedwig wrth ddathlu traddodiad Cymreig a chardiau ar gyfer achlysuron pwysig e.e. Santes Dwynwen, Dewi Sant, y Pasg. Braslunio a chymysgu lliwiau. Sesiynau ioga. Canu. Dawnsio Gwerin - Jac y Do a dysgu dawns Mister Urdd. Coginio. Peintio. Gweithgareddau amlsynhwyraidd ac ehangu sgiliau mudol man gan ddefnyddio e.e. toes, eli siafo, pasta, papur sgwariau, deunydd gwehyddu, paent, bysellfwrdd cyfrifiadur/ffôn symudol. Defnyddio offer adeiladu. Datblygu sgiliau echddygol bras. Gêmau buarth. Gweithgareddau'r goedwig. Ardaloedd chwarae rôl Adlewyrchu gwaith artistiaid.

**Y Dyniaethau** - Dysgu chwedl Santes Dwynwen a Dewi Sant. Gwrando ar storïau o'r Beibl a mwynhau gwasanaethau fesul camau ac ysgol gyfan y Pennaeth. Hefyd, storiau â neges yn perthyn iddynt. Dysgu a deall hanes y Pasg o ddydd Mawrth Ynyd hyd at yr atgyfodiad. Dysgu am ddathliadau byd eang - Blwyddyn Newydd Tsieineaidd a thraddodiadau Blwyddyn Newydd y Cymry. Mwyhau mynd am dro e.e. yr ardal leol a'r goedwig. Edrych ar effaith digwyddiadau hanesyddol - Astudio amserlen enwogion Cymru fesul mis. Adeiladu sylfaen o wybodaeth a defnyddio'u sgiliau mewn testunau gwahanol.

Cofiwch ddod â dillad addas ar gyfer ymarfer corff a'r goedwig a chadw nhw yn yr ysgol am y tymor. Cofiwch ddilyn ni ar X a Seesaw. Hefyd, edrychwch ar wefan yr ysgol am luniau diweddaraf y dosbarth https://www.ygg-gellionnen.co.uk/